

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Gorchymyn Cefnffordd yr A479
(Parc Glan-wysg i Dretŵr, Powys)
(Terfyn Cyflymder 50 mya Dros
Dro) 2021**

**The A479 Trunk Road (Glanusk
Park to Tretower, Powys)
(Temporary 50 mph Speed Limit)
Order 2021**

Gwnaed 14 Medi 2021

Made 14 September 2021

Yn dod i rym 21 Medi 2021

Coming into force 21 September 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A479, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A479 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be restricted because of the likelihood of danger to the public on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Parc Glan-wysg i Dretŵr, Powys) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Medi 2021.

1. The title of this Order is the A479 Trunk Road (Glanusk Park to Tretower, Powys) (Temporary 50 mph Speed Limit) Order 2021 and this Order comes into force on 21 September 2021.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A479 Parc Glan-wysg i Lys-wen sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r A40 ym Mharc Glan-wysg hyd at bwynt 75 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Heol Saeson (ffordd sirol yr U495) yn Nhretŵr, Powys;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach nag 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4.—(1) Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal dros dro

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn gymwys.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A479 Glanusk Park to Llys-wen trunk road that extends from the centre-point of its junction with the A40 at Glanusk Park to a point 75 metres south-east of its junction with Heol Saeson Lane (county road U495) at Tretower, Powys.

Restriction

3. No person may drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

Application

4.—(1) The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Suspension

5. Any statutory provisions restricting the speed of motor vehicles on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order are suspended during such times as the restriction specified in article 3 applies.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

14 Medi 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

14 September 2021

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government